



Cardiff
Metropolitan
University

Prifysgol
Metropolitan
Caerdydd

DISGRIFIAD SWYDD

Teitl swydd:	Darlithydd Gwyddor Biofeddygol
Lleoliad:	Ysgol Chwaraeon a Gwyddorau Iechyd Caerdydd
Oriau:	37 awr yr wythnos (1.0 CALI)
Deiliadaeth:	Parhaol
Gradd:	7 A/B
Cyflog:	£46,049 - £51,753 y flwyddyn
Atebol i:	Arweinydd y Tîm Academaidd

Prif Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau:

Bydd y Darlithydd mewn Gwyddorau Biofeddygol yn darparu addysgu, asesu a chymorth academaidd o ansawdd uchel ar draws rhaglenni israddedig ac ôl-raddedig. Fel Gwyddonydd Biofeddygol neu Gwyddonydd Clinigol sydd wedi'i gofrestru ar HCPC, bydd y deiliad swydd yn defnyddio gwybodaeth arbenigol o Batholeg Gellog gan gynnwys histopatholeg, cytopatholeg, patholeg foleciwlaidd a patholeg ddigidol i sicrhau bod addysgu yn adlewyrchu arfer proffesiynol cyfredol, datblygiadau gwyddonol, a safonau rheoleiddio.

Bydd y cyfrifoldebau'n cynnwys dylunio a chyflwyno darlithoedd, tiwtorialau, ymarferion labordy, ac adnoddau dysgu digidol mewn meysydd fel histopatholeg, cytopatholeg, mecanweithiau clefydau, a patholeg diagnostig. Bydd y rôl yn cynnwys asesu dysgu myfyrwyr, darparu arweiniad academaidd, goruchwyllo prosiectau ymchwil israddedig ac ôl-raddedig, a chefnogi lleoliadau clinigol. Bydd deiliad y swydd hefyd yn cyfrannu at ddatblygu'r cwricwlwm, sicrhau ansawdd, recriwtio myfyrwyr, a gweithgareddau cydweithredol gyda phartneriaid academaidd, clinigol ac allanol.

Bydd addysgu sy'n seiliedig ar ymchwil yn gwella profiad y myfyrwyr ac yn hyrwyddo ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Bydd disgwyl i'r deiliad swydd ddatblygu/cynnal proffil ymchwil weithredol ac ysgolheigaidd trwy gyhoeddiadau, cyflwyniadau cynadleddau, ymchwil gydweithredol, a cheisiadau am gyllid.



Cardiff
Metropolitan
University

Prifysgol
Metropolitan
Caerdydd

PROFFIL RÔL

Prif Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau:

Cymorth addysgu a dysgu

- Goruchwyllo myfyrwyr ymchwil israddedig ac ôl-raddedig.
- Dylunio deunydd addysgu a chyflwyno naill ai ar draws ystod o fodiwlau neu o fewn maes pwnc.
- Defnyddio dulliau addysgu, cymorth dysgu ac asesu priodol.
- Goruchwyllo prosiectau myfyrwyr, a/neu e.e. teithiau maes a, lle bo'n briodol, lleoliadau.
- Nodi meysydd lle mae angen adolygu neu wella'r ddarpariaeth bresennol.
- Cyfrannu at gynllunio, dylunio a datblygu amcanion a deunydd.
- Gosod, marcio ac asesu gwaith ac arholiadau a darparu adborth i fyfyrwyr.

Ymchwil ac ysgolheictod

- Arwain cynigion ymchwil a/neu arloesi a phrosiectau sydd â'r potensial i gynhyrchu incwm, i reoli cyflawni'r prosiectau, cyflawni allbynnau a sicrhau effaith.
- Gweithio gyda rhanddeiliaid prifysgol i nodi ffynonellau cyllid ymchwil ac arwain y broses o sicrhau arian.
- Rheoli cyflawni prosiectau ymchwil unigol a/neu gydweithredol yn ôl amser ac ar y gyllideb.
- Cymhwyso gwybodaeth a gafwyd o ymchwil ac arloesi yn ogystal ag ysgolheictod i ddysgu ac addysgu, a gweithgareddau allanol priodol.
- Arwain y gwaith o ddylunio a chynhyrchu cyhoeddiadau a adolygir gan gymheiriaid a/neu allbynnau ymarferwyr, a/neu ledaenu canfyddiadau ymchwil gan ddefnyddio cyfryngau priodol eraill.
- Gwneud cyflwyniadau mewn cynadleddau academiaidd a/neu ymarferwyr lleol, cenedlaethol a rhyngwladol neu arddangos gwaith mewn digwyddiadau priodol eraill.

Cyfathrebu

- Cyfathrebu sy niadau cymhleth a chysyniadol yn rheolaidd.
- Lledaenu syniadau cysyniadol a chymhleth i amrywiaeth eang o gynulleidfa.

Cyswllt a rhwydweithio

- Cymryd rhan mewn rhwydweithiau mewnol ac allanol a helpu i ddatblygu er budd Prifysgol Metropolitan Caerdydd ym meysydd addysgu ac ymchwil megis:

- Arwain a datblygu rhwydweithiau mewnol er enghraifft drwy gadeirio pwyllgor Ysgol a Sefydliadol a chymryd rhan ynddynt.
- Arwain a datblygu rhwydweithiau allanol er enghraifft gydag arholwyr ac aseswyr allanol.
- Datblygu cysylltiadau â chysylltiadau allanol megis cyrff addysgol eraill, cyflogwyr, a chyrff proffesiynol i feithrin cydweithio.

Rheoli pobl

- Mentora cydweithwyr sydd â llai o brofiad ac yn rhoi cyngor ar ddatblygiad personol.
- Yn dibynnu ar y maes gwaith, gellid disgwyl i oruchwyllo gwaith pobl eraill.

Gwaith Tîm

- Gweithredu fel aelod cyfrifol o'r tîm, gan arwain lle y cytunir arno, a datblygu perthnasoedd gwaith cynhyrchiol gydag aelodau eraill o staff.
- Cydweithio â chydweithwyr i nodi ac ymateb i anghenion myfyrwyr.

Gofal bugeiliol

- Gellid disgwyl i ddeiliad y swydd weithredu fel tiwtor modiwl.
- Bod yn gyfrifol am ofal bugeiliol myfyrwyr o fewn ardal benodol.
- Delio â phroblemau safonol a helpu cydweithwyr i ddatrys eu pryderon am gynnydd mewn ymchwil.

Menter, datrys problemau a gwneud penderfyniadau

- Asesu, dehongli a gwerthuso canlyniadau ymchwil.
- Nodi'r angen am ddatblygu cynnwys neu strwythur modiwlau gyda chydweithwyr a gwneud cynigion ar sut y dylid cyflawni hyn.
- Datblygu syniadau sy'n hyrwyddo'r pwnc a/neu feysydd ymchwil.
e.e. datblygu syniadau a dod o hyd i ffyrdd o ledaenu a chymhwyso canlyniadau ymchwil ac ysgolheictod.
e.e. cyfrifoldeb am ddylunio a darparu modiwlau a dulliau asesu eu hunain.
e.e. cydweithio â chydweithwyr ar weithredu gweithdrefnau asesu.
e.e. cynghori eraill ar faterion strategol megis recriwtio myfyrwyr a marchnata.
e.e. cyfrannu at achredu cyrsiau a phro sesau rheoli ansawdd.

Cynllunio a rheoli adnoddau

- Fel arweinydd modiwl neu diwtor, cydlynu ag eraill (fel staff cymorth neu gydweithwyr academiaidd) i sicrhau bod anghenion a disgwyliadau myfyrwyr yn cael eu diwallu.
- Rheoli prosiectau sy'n ymwneud â maes gwaith eich hun.
- Cymryd rhan mewn datblygu syniadau ar gyfer cynhyrchu incwm.

Galwadau synhwyrdd, corfforol ac emosiynol.

- Cydbwysu pwysau gofynion addysgu a gweinyddol a therfynau amser cy stadlu.

Amgylchedd gwaith

O fewn cyd-destun polisi lechyd a Diogelwch Prifysgol Metropolitan Caerdydd, yn dibynnu ar faes gwaith a lefel yr hyfforddiant a dderbynnir, gellir disgwyl i gynnal asesiad risg a chymryd cyfrifoldeb am iechyd a diogelwch pobl eraill.

Arbenigedd

- Meddu ar ehangder neu ddyfnder digonol o wybodaeth arbenigol yn y ddisgyblaeth i ddatblygu rhaglenni addysgu a/neu ymchwil a darparu cymorth dysgu.
- Defnyddio ystod o dech negau dosbarthu.
- Dealltwriaeth fanwl o arbenigedd eich hun er mwyn galluogi datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth newydd o fewn y maes, a thrwy gymhwysiad.

Hysbysiad Safonol

Darperir y canllawiau hyn i'ch cynorthwyo i berfformio'ch rôl. Mae'r brifysgol yn sefydliad deinamig; felly, efallai y bydd angen newidiadau o bryd i'w gilydd. Bydd unrhyw newidiadau yn cael eu gwneud mewn ymgynghoriad â deiliad y swydd. Ni fwriedir i'r Crynodeb o Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau fod yn rhestr gynhwysfawr o dasgau a gyflawnir. Mae tasgau cysylltiedig eraill yn debygol o gael eu cyflawni yn unol â chyfarwyddyd y rheolwr llinell.

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i'r safonau ymddygiad moesegol a phroffesiynol uchaf. Felly, disgwylir i bob gweithiwr roi sylw dyladwy i effaith eu hymddygiad personol a'u hymddygiad ar y Brifysgol, myfyrwyr, cydweithwyr, rhanddeiliaid busnes a'n cymuned. Rhaid i bob gweithiwr ddangos ymlyniad â'n Cod Ymddygiad Proffesiynol. Yn ogystal, dylai pob gweithiwr roi sylw arbennig i'w gyfrifoldebau o dan bolisiâu a gweithdrefnau Cydraddoldeb, Ariannol, Amgylcheddol a chynaliadwyedd, Gwasanaethau Pobl ac Iechyd a Diogelwch Prifysgol Metropolitan Caerdydd.



Cardiff
Metropolitan
University

Prifysgol
Metropolitan
Caerdydd

MANYLEB PERSON

Teitl swydd: Darlithydd mewn Gwyddor Biofeddygol

Uned/Ysgol: Ysgol Chwaraeon a Gwyddorau Iechyd
Caerdydd

* Allwedd

A - Ffurflen gais

I - Cyfweliad

P - Cyflwyniad

FFACTORAU	MEINI PRAWF HANFODOL A DYMUNOL	ASESIR GAN		
		Ff*	C*	Cyfl*
Addysg a Chymwysterau (Hanfodol)	Gradd anrhydedd dda.	√		
	Y gallu i ennill cymhwyster lefel doethuriaeth.	√		
	Cofrestriad Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal (HCPC) fel Gwyddonydd Biofeddygol neu Glinigol.	√		
	Y gallu i ennill Statws Cymrawd fel rhan o gynllun Cydnabyddiaeth Broffesiynol yr Academi Addysg Uwch, o fewn cyfnod o 3 blynedd.	√		
Addysg a Chymwysterau (Dymunol)	Cymhwyster lefel doethuriaeth a enillwyd.	√		
	Statws Cymrawd fel rhan o gynllun Cydnabyddiaeth Broffesiynol yr Academi Addysg Uwch.	√		
	Cymhwyster ôl-raddedig sy'n gysylltiedig â maes arbenigol e.e. Diploma Arbenigol Uwch (IBMS), Rhaglen Hyfforddiant Gwyddonol (STP) neu MSc.	√		

Gwybodaeth (Hanfodol)	Lefel dda o wybodaeth sy'n berthnasol i'r pwnc a'r maes proffesiynol a'r ddarpariaeth lleoliad.	√	√	
	Dealltwriaeth o rôl arloesi a thechnoleg mewn addysg ac mewn ymarfer clinigol.	√	√	
	Tystiolaeth o ymgymryd â datblygiad proffesiynol parhaus (DPP).	√	√	√
	Dealltwriaeth gadarn o addysgeg.	√	√	√
	Dealltwriaeth gadarn o ymchwil/ menter a gweithgarwch ysgolheigaidd.	√		
	Dealltwriaeth o rôl yr academydd fel mentor/model rôl ar gyfer arweinyddiaeth ac ymddygiadau proffesiynol.		√	
Gwybodaeth (Dymunol)	Lefel dda o wybodaeth am histopatholeg, cytopatholeg, imiwnohistocemeg, patholeg foleciwlaidd a patholeg ddigidol gyda gwybodaeth ategol o geneteg glinigol a cytogeneteg.	√	√	√

Sgiliau a Galluoedd yn ymwneud â'r rôl (Hanfodol)	Y gallu i ddatblygu rhaglenni addysgu a/neu ymchwil a darparu cymorth dysgu.	√	√	
	Y gallu i ddylunio deunydd addysgu a dysgu.	√	√	
	Y gallu i ddefnyddio dulliau asesu priodol.	√	√	
	Y gallu i gefnogi datblygiad amcanion, prosiectau neu gynigion ymchwil.	√	√	
	Y gallu i ddefnyddio dulliau priodol ar gyfer lledaenu canfyddiadau ymchwil.	√	√	
	Y gallu i gyfrannu at gyflawni'r Cynllun Datblygu'r Ysgol a datblygu gweithgareddau ysgol eraill.		√	
	Y gallu i ymgymryd â dyletswyddau gweinyddol mewn modd cywir ac amserol.	√	√	
	Y gallu i gynllunio llwythi gwaith a phrosiectau a rheoli adnoddau'n effeithiol.	√	√	
	Y gallu i nodi meysydd i'w gwella ac i ddefnyddio sgiliau menter a datrys problemau i wella perfformiad.		√	
	Y gallu i gymryd cyfrifoldeb am nifer o feysydd allweddol megis tiwtor modiwl, goruchwyliaeth ymchwil ar lefel israddedig.		√	
	Y gallu i gyfathrebu a lledaenu syniadau cymhleth a chysyniadol mewn amrywiaeth o ffyrdd — cyflwyniadau mewn cynadleddau adroddiadau ar ganfyddiadau, cyhoeddiadau, adborth.	√	√	√
	Y gallu i ddatblygu perthnasoedd gwaith cynhyrchiol fel rhan o dîm proffesiynol.	√	√	
	Y gallu i weithio ar y cyd ar brosiectau ymchwil drwy ddatblygu partneriaethau priodol.	√	√	
	Y gallu i ddangos gwerthoedd proffesiynol eu hunain a meithrin y gwerthoedd hynny mewn myfyrwyr.	√	√	
Sgiliau a Galluoedd yn ymwneud â'r rôl (Dymunol)	Y gallu i ddatblygu rhaglenni addysgu a/neu ymchwil a darparu cymorth dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.	√		

Profiad â thâl/heb dâl (Hanfodol)	Profiad o addysgu/ymchwil/ profiad clinigol neu gyfwerth. Profiad o weithio gydag eraill mewn capasiti goruchwyllo/arweinio/ cefnogi/mentora. Profiad mewn arweinyddiaeth glinigol mewn cyddestun proffesiynol, ac wrth gymhwyso creadigrwydd wrth ddatblygu cyfleoedd dysgu a chymorth i eraill.	√ √ √	 √ √	 √
Profiad â thâl/heb dâl (Dymunol)	Profiad o hyfforddiant clinigol diweddar myfyrwyr. Profiad o addysgu mewn Addysg Uwch. Profiad mewn ymchwil a/neu waith menter ac arloesi	√ √ √	√ √	
Gofynion Eraill (Hanfodol)	N/A		√	
Gofynion Eraill Sgiliau Iaith Gymraeg (Dymunol) Am y disgrifiadau sgiliau llawn, ewch i'n gwefan recriwtio staff.	<u>Gwranddo, Darllen, Siarad, Ysgrifennu</u> A1 - Dech reuwr Yn gallu deall a defnyddio dywediadau bob dydd cyfarwydd ac ymadroddion sylfaenol iawn yn y Gymraeg.	√		